| | | |
|---|---|---|
| **Lleoli ar fap**<br>Agorwch y ddogfen ‘Anifeiliaid—map o’r byd’. Edrychwch ar y rhestr anifeiliad sydd yn y ddogfen. Bydd angen i chi ddefnyddio’r we i ddarganfod ble mae’r anfeiliaid yn byw. Cofiwch sôn am wlad a’r cyfandir.  Ewch ati i osod llun ac enw’r anifail ar fap y byd. Cofiwch bydd angen allwedd ar eich map yn dangos y cyfandiroedd.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | **Y gadwyn fwyd**<br>Defnyddiwch y gwefannau yma er mwyn dysgu am gadwyni bwyd. Agorwch y ddogfen ‘Y gadwyn fwyd’. Bydd angen i chi wneud llun o’r planhigyn / anifail yn gyntaf. Wedyn defnyddiwch y we i ddarganfod y wybodaeth berthnasol i lenwi’r bylchau o dan bob llun. Ewch ati i greu cadwyn fwyd allan o’r cardiau gwybodaeth gwnaethoch greu.<br><br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zbnnb9q/articles/zwbtxsg<br>https://www.dkfindout.com/uk/animals-and-nature/food-chains/what-is-food-chain/<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Patrwm yr wythnos:<br>Mae ganddi/does ganddi ddim...  (merch)<br>Mae ganddo/does ganddo ddim... (bachgen)<br>Mae ganddyn nhw/does ganddyn nhw ddim... (mwy nag un person)<br>*Edrychwch ar luniau’r anifeiliaid a defnyddiwch y patrymau I'w disgrifio.e.e.Mae ganddo flew streipiog. Does ganddo ddim cynffon.*<br>Gallwch gyflwyno’r brawddegau ar fideo neu wedi eu teipio/ysgrifennu.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |
| Patrymau<br>Mae’r patrymau amrywiol ar anifeiliaid yn anhygoel! Edrychwch ar lein neu mewn llyfrau/cylchgronau ar luniau o greaduriaid a sylwch ar liw, llinell, siâp, tôn a.a. Yna ewch ati i ailgreu patrwm/patrymau mewn cyfrwng o’ch dewis. (colaj, argraffu, paent, pensil, digidol a.a.) Edrychwch ar yr enghreifftiau os oes angen sbardun.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell*** | . Cyflwyniad ceidwad y sŵ<br>Mae ceidwaid sŵ yn aml yn siarad gyda phobl am yr anifeiliaid yn eu gofal. Ysgrifennwch gyflwyniad byr am un math o anifail sŵ. Yna recordiwch eich hun yn gwneud y cyflwyniad fel petai chi yw’r ceidwad. Gallech gynnwys yr wybodaeth ganlynol yn eich canlyniad:<br>• Ble mae dod o hyd i'r anifail yn ei cynefin/gynefin naturiol<br>• Deiet<br>• Pa mor hir mae’n byw.<br>• Pethau sydd yn ei b/fygwth yn ei c/gynefin naturiol.<br>• Ffeithiau diddorol am yr anifail.<br>***Lanlwythwch eich fideoi’ch plygell yn J2e yn HWB neu ebostiwch eich athro*** | **Cynllun Sŵ**<br>Mae angen cynllunio sŵ yn ofalus! Agorwch y ddogfen o'r enw “Cynllun Sw”. Yma fe welwch weithgaredd Mathemateg lle mae angen i chi ddarganfod arwynebedd gwahanol rannau o'r sw, a chyfrifo'r costau. Am fideo yn adolygu sut i ddarganfod arwynebedd, ymwelwch â'r ddolen hon:<br><br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zjbg87h/articles/zwqt6fr<br><br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |
| **Darllen a Deall**<br>A welsoch chi erioed greadur mor ryfedd? Agorwch y ddogfen o’r enw ‘Darllen a deall’. Darllenwch y darn ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn gan gofio i ateb mewn brawddegau llawn.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB*** | **Dadl gytbwys**<br>Oherwydd diffyg gallu agor yn ystod y cyfnod dan glo, mae’n bosib y bydd yn rhaid i rai sŵau gau. Byddai rhai pobl yn dadlau mai peth da yw hyn, bod sŵau yn greulon ac na ddylid cadw anifeiliad mewn caethiwb fel hyn. Darllenwch yr wybodaeth isod ac yna cyflwynwch ddadl o blaid neu yn erbyn sŵau (cofiwch ystyried ddwy och y ddadl – o blaid ac yn erbyn, cyn dod i gasgliad). Mae taflen geirfa mynegi barn i'ch helpu chi.<br>https://www.bbc.co.uk/teach/what-are-zoos-for/z649f4j<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | **Lluosi gyda 10, 100 a 1,000**<br>Agorwch y ddogfen ‘Lluosi gyda 10, 100 a 1,000’. Dewiswch y daflen sydd yn briodol i chi, ac yna ewch ati i ddatrys y broblem. Cofiwch bod angen dangos eich gwaith cyfrifo. Os oes angen cymorth arnoch, edrychwch ar y gwefannau isod.<br>https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2017/CiparFathemateg/elements/CA2/2/lluosi_rhannu_10_100_Bl34.html<br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/z36tyrd/articles/z2fkwxs<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |